OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2086 (Cy.224)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Slipffyrdd rhwng Cyffordd 2 (Tŷ Mawr) a Chyffordd 6 (Tyrpeg y Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym* | *5 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig mewn darnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Slipffyrdd rhwng Cyffordd 2 (Tŷ Mawr) a Chyffordd 6 (Tyrpeg y Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 07:00 o'r gloch ar 5 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A55